



Ein cyf/Our ref: VG/0099/20

Bethan Sayed AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12 Chwefror 2020

Annwyl Bethan,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais yn ystod y cyfarfod llawn ar 28 Ionawr 2020 i wneud datganiad llafar ar wasanaethau anhwylderau bwyta.

Yn fy natganiad, a gyhoeddwyd ar 26 Medi 2019, amlinellais pa gamau yr wyf yn disgwyl i fyrddau iechyd eu cymryd. Ers hynny, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda byrddau iechyd i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r amrywiadau o ran gwasanaethau. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu ble y gall dull gweithredu cenedlaethol fod y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau teg ledled Cymru, ble y mae angen dull gweithredu sy'n fwy pwrpasol a ble y mae angen rhagor o gyllid er mwyn i fyrddau iechyd gyflawni'r weledigaeth a nodir yn yr Adolygiad o Wasanaethau Anhwylderau Bwyta.

Rwy'n bwriadu gwneud datganiad i'r Cynulliad yn y gwanwyn, ac erbyn hynny gallaf roi diweddariad manylach ar ganlyniadau'r 12 mis cychwynnol o gyllid, yn ogystal â chyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer y dyfodol i wella gwasanaethau. Bydd y datganiad hefyd yn rhoi cyfle imi rannu rhagor o fanylion ynghylch sefydlu adnodd canolog a fydd yn gyfrifol am lywio'r gwaith hwn o safbwynt Cymru gyfan.

Diolch ichi am eich diddordeb parhaus yn y mater hwn.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.